

# Codi arian o ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol

## Rhai awgrymiadau gan Talwrn

Mae'r awgrymiadau hyn wedi eu profi gyda chyllidwyr - ac yn cynnwys sylwadau gan swyddogion cyllido sy'n gweithio mewn chwe ymddiriedolaeth a sefydliad gwahanol.

## Cyn i chi wneud cais

1. Datblygwch ddarlun clir o'r hyn yr ydych am ei wneud a pham. Os oes gennych 'gynllun gweithredu' neu gynllun busnes ar gyfer eich gwaith dros y blynyddoedd nesaf ac yn gallu dangos sut bydd y prosiect/gwaith yn cyd-fynd â hyn, bydd yn help mawr.
2. Sefydlwch ddarlun mor glir â phosibl o'r gwahaniaeth y gallai'r gwaith hwn ei wneud i'r bobl yr ydych eisiau gweithio gyda nhw/yr ydych yn gweithio gyda nhw. Os yw'n berthnasol, sicrhewch eich bod yn cynnwys y bobl hyn yn y broses o feddwl am y gwaith.
3. Meddyliwch am beth fydd yn digwydd wedyn. Bydd y rhan fwyaf o ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol yn cyllido am uchafswm o dair blynedd yn unig. Beth fydd wedi ei gyflawni erbyn diwedd y grant os byddwch yn llwyddiannus? Beth ydych chi'n rhagweld fydd yn digwydd ar ôl hynny? Fydd neb yn disgwyl cynllunio manwl - gall llawer newid mewn tair blynedd - ond mae angen i chi ystyried pethau ac, o leiaf, nodi'r gobeithion ynglŷn â beth ddaw o'r gwaith.
4. Meddyliwch am y math o gyllid yr ydych ei eisiau. Ewch i ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol er mwyn eich helpu i brofi ffordd newydd o weithio; datblygwch waith yr ydych eisoes yn ei wneud hyd lefel newydd; ewch i'r afael â phroblem newydd nad ydych wedi ei hwynebu o'r blaen; datblygwch eich sefydliad neu eich gwaith.
5. Yn gynyddol, mae rhai ymddiriedolaethau a sefydliadau yn ystyried ariannu costau craidd ond bwriedir hyn fel arfer er mwyn helpu sefydliad i ddatblygu.

*ni fyddwn yn ariannu tyllau sydd wedi ymddangos pan fydd grantiau mawr wedi diflannu oni bai bod cynllun da iawn ynglŷn â sut y bydd y grant mawr yn cael ei ddisodli.*

6. Edrychwch ar y gwefannau sydd gan ymddiriedolaeth neu sefydliad elusennol a darllenwch yn ofalus drwy'r wybodaeth a ddarperir i weld pa fath o bethau y mae diddordeb ganddyn nhw ei ariannu, y mathau o sefydliadau a gweithgareddau y maent wedi eu cyllido yn y gorffennol, ac

aseswch ei berthnasedd i'r gwaith yr ydych eisiau ei wneud. Os nad ydyw'n berthnasol, edrychwch yn rhywle arall - ceir dros 8000 o ymddiriedolaethau a sefydliadau. Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen trwy'r hyn nad ydynt yn fodlon ariannu (bydd llawer yn fodlon ariannu elusennau cofrestredig yn unig, er enghraifft).

*Peidiwch â cheisio gwneud yr hyn sy'n amhosibl pan ddaw hi'n fater o flaenoriaethau sefydliad – nid yw hyn yn debygol o fod yn ddefnydd da o amser*

*Mae mwy a mwy o ymddiriedolaethau a sefydliadau yn cyhoeddi data grant-defnyddiwch hyn! Edrychwch ar y ceisiadau y maent wedi eu hariannu yn flaenorol – bydd hyn yn rhoi syniad i chi nid yn unig o'r math o waith y maent yn chwilio amdano ond hefyd maint/graddfa posibl cais.*

*mae angen i'r cynnig fod yn benodol ar gyfer y cyllidwr hwnnw. Bydd y rhai mwy, yn gyffredinol, yn fwy strategol wrth roi grant tra bod y rhai llai a/neu deuluol efallai'n defnyddio dull sy'n fwy o'r galon ac yn dymuno cael llythyr yn unig.*

7. A ydych chi'n barod i dderbyn cyllid? Bydd ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol (Mae Sefydliad Banc Lloyds wedi paratoi rhestr wirio ddefnyddiol)<sup>1</sup> eisiau edrych ar eich llywodraethu, sut yr ydych yn rheoli eich cyllid a'ch risgiau fel sefydliad.

*'Mae angen i sefydliadau argyhoeddi'r cyllidwr deallus eu bod hwythau hefyd yn wybodus yn achos rheoli ac adrodd ariannol: maent yn deall y cyllid (yr ymddiriedolwyr a'r staff). Maent yn cyflwyno ffurflenni blynyddol mewn pryd, mae ganddynt lif arian, maent i gyd yn trafod rheoli ariannol mewn cyfarfodydd bwrdd, maent yn ymwybodol o amcanestyniadau v gwariant gwirioneddol, cronfeydd wrth gefn, y fantolen, ac ati (nid y trysorydd yn unig).'*

8. Cofiwch y gall ymddiriedolaeth neu sefydliad edrych ar unrhyw wybodaeth arall y gallan nhw ei gasglu amdanoch:

*gallen ni edrych ar ffynonellau eraill o wybodaeth yn ychwanegol at y cais er mwyn cael 'teimlad' ynglŷn â'r sefydliad - trwy eu hadroddiad blynyddol (faint o wybodaeth sydd ynddo, ydy e'n cyfleu/darlunio'r effaith y mae'r elusen yn ei chael, ydy e'n dweud stori) ac yn gynyddol bwysig, eu gwefan.*

*Os ydych yn gwybod am sefydliad sydd wedi cael cyllid wrthyn nhw o'r blaen, mae hi'n werth gofyn iddyn nhw sut oedd y broses iddyn nhw (ac, os yw'n ymddiriedolaeth fechan, gallai cyflwyniad gan rywun y maent yn ei adnabod yn barod fod o werth mawr)*

9. Mae cystadleuaeth fawr am gyllid ymddiriedolaeth a sefydliad – ond peidiwch â digalonni. Os yw'r gwaith yn bwysig yna bydd yn werth chweil.

---

<sup>1</sup> <http://smallcharityfinance.org.uk/ten-point-checklist-for-ensuring-that-your-charity-is-fit-for-the-future/>

*Edrychwch am wybodaeth ynghylch y tebygolrwydd o lwyddo wrth wneud cais - gall fod o gymorth i fod yn realistig am y tebygolrwydd o lwyddiant wrth gynllunio ceisiadau am godi arian. Peidiwch â rhoi eich wyau i gyd ym masged cyllidwr sy'n cefnogi 1 cais ym mhob 10.*

### **Pwyntiau cyffredinol**

10. Byddwch mor glir a syml â phosibl- yn syml, rydych yn 'marchnata' eich gwaith, felly gwnewch yn siŵr y bydd y darllenwr a) yn deall pwy ydych chi a'r hyn yr ydych yn ei wneud; a b) yn deall beth rydych am iddyn nhw ei ariannu a pham (pa wahaniaeth y bydd yn ei wneud). Yr allwedd yw cyfathrebu effeithiol a hygyrchedd

*Gwnewch yn siŵr y gellir uniaethu a'r gwaith a bod y gwaith yn ymwneud â phobl - rhowch wyneb i'r rhai fydd yn elwa fwyaf a thynnu sylw at y newidiadau y mae grwpiau eisiau eu profi.*

11. Bydd ymddiriedolaethau a sefydliadau eisiau gwybod eich bod yn adnabod eich cymuned neu ardal, sut rydych yn cysylltu â gwaith ag eraill, pwy sy'n dylanwadu arnoch chi a phwy yr ydych chi'n dylanwadu arnyn nhw:

*pwy mae sefydliadau'n gweithio gyda nhw, mewn partneriaeth â nhw neu o ran dylanwad, rhwydweithio ac ati. Rydym bob amser yn ceisio deall rhan rôl sefydliad/grŵp yn y dirwedd leol/rhanbarthol/cenedlaethol. Ydyn nhw'n gysylltiedig â grwpiau eraill tebyg, ydyn nhw'n rhannu eu gwaith ac yn dysgu gan eraill? Ydyn nhw'n derbyn/gwneud atgyfeiriadau gan/i wasanaethau/sefydliadau eraill ac ati?*

12. Gofynnwch i rywun nad ydynt yn eich adnabod chi a'r sefydliad yn dda, neu nad yw'n deall y gwaith yr ydych yn ei wneud, i 'brawf ddarllen' y cais a rhoi adborth ar yr hyn y maen nhw'n ei feddwl yr ydych yn ei wneud a'r hyn yr ydych yn ei ofyn amdano. Anogwch nhw i fod mor feirniadol â phosibl gan ei bod yn well cael adborth beirniadol nawr, tra bod dal amser gennych i wella'r cynnig.

13. Byddwch yn onest a rhannwch broblemau. Os ydych yn wynebu her neu argyfwng go iawn, trafodwch hyn a sut yr ydych yn anelu at fynd i'r afael ag ef.

14. Mae ymddiriedolwyr ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol yn wirfoddolwyr ac yn aml yn brysur iawn yn eu maes gwaith eu hunain. Bydd gan y rhan fwyaf o ymddiriedolaethau a sefydliadau weithlu bychan iawn, a bydd y bobl hyn, yn aml, yn gweithredu dros y DU i gyd. Felly peidiwch â gwneud pethau'n anodd iddynt. Peidiwch â chymryd eu bod yn gwybod unrhyw beth am Gymru, heb sôn am y cymunedau yr ydych yn gweithio gyda nhw. Peidiwch â chymryd yn ganiataol eu bod yn gwybod am feysydd polisi Cymru fel Cymunedau'n Gyntaf. Eglurwch beth yw'r anghenion yr ydych yn ceisio mynd i'r afael â nhw a sut yr ydych yn gwybod amdanynt.

*Osgowch jargon - ni ellir pwysleisio hyn ddigon, yn enwedig yng Nghymru lle mae pobl yn dueddol o ysgrifennu ceisiadau y mae awdurdodau a llywodraethau lleol yn hoffi eu darllen*

*defnyddiwch Saesneg a Chymraeg clir - a pheidiwch â chymryd yn ganiataol y bydd pobl yn deall polisi'r Gymraeg.*

15. Ceisiwch weld a yw hi'n bosibl siarad â rhywun yn yr ymddiriedolaeth neu sefydliad cyn datblygu'r cais - neu os allwch ofyn rhai cwestiynau.

#### **Y cefndir**

16. Nid yw ymddiriedolaethau a sefydliadau yn micro-reoli eu grantiau, maent yn ymddiried yn fawr yn y rheini y maent yn eu cyllido i wario eu harian yn dda. Felly, mae'n rhaid iddynt fod yn ffyddiog y bydd eich sefydliad yn cyflawni hyn ac mae'n rhaid i'ch cais eu sicrhau nhw mai dyma fydd yr achos. Cyflwynwch y gwaith yr ydych wedi ei wneud o'r blaen a'i effaith; os yn bosibl, crybwyllwch pwy arall sydd wedi eich cyllido; eglurwch pa waith yr ydych wedi ei wneud i baratoi ar gyfer y cais hwn (fel unrhyw gymorth yr ydych wedi ei gael gan eraill; sut yr ydych wedi cynnwys pobl leol/y bobl yr ydych yn gweithio gyda nhw).
17. Amlinellwch sut yr ydych yn cael eich llywodraethu a phwy sy'n gysylltiedig. Pa mor aml y mae'r Bwrdd neu'r Pwyllgor llywio yn cwrdd? Pwy sydd ar y grŵp a pha gefndir/profiad sydd ganddynt. Pa rôl sydd ganddynt wrth fonitro eich gwaith? Sut maen nhw'n rhan o oruchwylio eich cyllid? Os oes gennych wendidau yn y maes hwn - dywedwch hynny, ac eglurwch beth sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â nhw.

#### **Y prosiect/gwaith**

18. Gwnewch yn siŵr bod y ffordd yr ydych yn disgrifio eich gwaith yn cysylltu â diddordebau'r cyllidwr. **Nid yw hyn** yn golygu llunio gwaith er mwyn cael cyllid, ond yn hytrach, sicrhau eich bod yn ei ddisgrifio mewn ffyrdd sy'n briodol ac nad yw'n gwneud iddyn nhw orfod gweithio i wneud y cysylltiadau. Bydd ymddiriedolaethau eisiau gwybod pa wahaniaeth yr ydych yn mynd i'w wneud i'r bobl yr ydych yn gweithio gyda nhw'n uniongyrchol. Efallai y byddwch yn canolbwyntio ar *sut* yr ydych yn mynd i greu'r effaith honno (e.e. cyflogi rhywun i gynnal cyrsiau neu ddarparu gofal plant) ond rhaid i chi hefyd sicrhau eich bod yn amlinellu beth yw'r gwahaniaeth y bydd hyn yn ei wneud a sut (e.e. pobl yn cael gwaith). Gallech ddefnyddio damcaniaeth sylfaenol o ddull newid<sup>2</sup> nad yw'n gorfod bod yn gymhleth.
19. Dywedwch wrthyn nhw am yr effeithiau yr ydych wedi eu cyflawni yn barod - bydd hyn yn eu galluogi i weld sut rydych yn gweithio. Dylai'r rhain gynnwys unrhyw ddarpariaeth neu sefydliad arall yr ydych wedi dylanwadu arny'n nhw.

---

<sup>2</sup> [https://www.nesta.org.uk/sites/default/files/theory\\_of\\_change\\_guidance\\_for\\_applicants\\_.pdf](https://www.nesta.org.uk/sites/default/files/theory_of_change_guidance_for_applicants_.pdf)

*mewn ceisiadau o Gymru, yn benodol, ceir llawer o ffocws ar allbynnau ond rydym am wybod pa wahaniaeth y mae hyn wedi ei wneud y tu hwnt i'r rhan a gyllidwyd. Felly, gallech fod wedi helpu 50 o bobl ifanc i ddilyn cwrs hyfforddi, ond beth ddigwyddodd iddyn nhw? Dyna beth rydym yn chwilio amdano*

20. Mae angen i'r cynnig fod yn ddiddorol ac yn cyfathrebu cyffro, angerdd a/neu ymrwymiad (os nad ydych yn ymddangos yn frwdfrydig amdano, pam ddylai'r darllenydd fod yn frwdfrydig?). Gyda channoedd o geisiadau i'w darllen, rhaid i'ch un chi ddal sylw'r darllenydd. Gall straeon, cip ar yrfa, ffotograffau a dyfyniadau helpu i dynnu sylw at gais ond peidiwch â dibynnu arnyn nhw – yn gynyddol, mae angen i geisiadau gael eu gwneud ar-lein a gallai fod cyfleoedd cyfyngedig i ychwanegu'r rhain.

*rydym yn cael llawer o geisiadau am yr un math o beth, felly mae angen i ni feddwl 'pam hwn ar draul y lleill' - felly rhaid i chi wneud cynnig da - dangoswch pam fod hwn yn unigryw ac yn bwysig; rhaid iddo sefyll allan*

*Os ydych yn cael anfon braslun ar bapur yn unig, peidiwch â gwastraffu gofod - gwnewch yn siŵr eich bod, erbyn diwedd y gofod, wedi cyfleu'r rheswm mai chi yw'r sefydliad iawn i gyflwyno'r canlyniadau yr ydych yn dweud y byddwch yn eu cyflwyno.*

*anfonwch yr hyn y gofynnir amdano yn unig, mae rhai pobl yn anfon cais Loteri Fawr neu gais HLF yn hytrach na dewis y pwyntiau sydd eu hangen arnom. Mae hyn yn rhwystredig gan ei bod yn anodd i ni asesu a chael y trosolwg sydd ei angen arnom.*

21. Po fwyaf y gallwch ddangos eich bod wedi meddwl am yr angen a sut i fynd i'r afael ag ef, ynghyd a'r gwahaniaeth y byddwch yn ei wneud, y mwyaf o hyder y byddwch yn ei danio.
- Defnyddiwch ystadegau a gwybodaeth leol y mae'n hawdd cael gafael arnynt (fel Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru; gwybodaeth cyfrifiad ardal leol).
  - Yn benodol, bydd gan ymddiriedolaethau a sefydliadau ddiddordeb yn eich archwiliadau eich hunain gyda phobl leol/y bobl yr ydych yn gweithio nhw. Bydd diddordeb ganddyn nhw yn sut yr ydych yn defnyddio adborth neu wybodaeth gan y bobl yr ydych yn gweithio gyda nhw er mwyn dysgu am anghenion ac er mwyn datblygu a gwella eich gwaith.

*Mae nifer o gyllidwyr erbyn hyn eisiau gwybod llawer mwy am ymgysylltu cyn/ôl gymunedol (gan y gymuned, i'r gymuned) ac mae gallu dangos bod pobl leol, nid yn unig, eisiau'r prosiect ond hefyd eisiau cyfrannu at ei ddatblygiad a'i lwyddiant yn dod llawer yn fwy pwysig.*

- *Dylai grwpiau adnabod eu hardal – nhw yw'r arbenigwyr yn y gymuned a dylen nhw fod yn gallu egluro'r problemau penodol yn yr ardal. Ynghlwm â hyn yw y dylai grwpiau wybod beth arall sy'n digwydd a beth sy'n cael ei gyflwyno i bwy gan bwy*

22. Lluniwch gyllideb realistig, sy'n cynnwys yr hyn fydd ei angen arnoch i wneud y gwaith, sy'n dangos pa gyfraniadau (os o gwbl) tuag at hyn y gallwch eu cael o rywle arall ac sy'n briodol i lefel y cyllid y gallwch ei ddisgwyl gan ymddiriedolaeth neu sefydliad. Cynhwyswch elfen o

gostau craidd os gallwch chi, er mwyn cynnwys faint y bydd yn ei gostio i'r sefydliad i gynnal y prosiect. Gwiriwch y gyllideb:

*Cyllidebau - gwnewch yn siŵr eu bod yn gwneud synnwyr! (A rhowch gyfanswm mewn unrhyw golofnau). Rwy'n poeni pan fydd angen i mi estyn am gyfrifiannell ... !*

23. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dangos sut y byddwch yn mesur y gwahaniaeth yr ydych yn ei wneud, hyd yn oed nas gofynnir y cwestiwn penodol hwn i chi, dangoswch sut y byddwch yn ei wneud fel arfer, neu os oes gennych wendid yn y maes hwn, sut y bydd y prosiect hwn yn cryfhau eich dull.

24. Dangoswch pa mor effeithiol yr ydych wrth ymdrin â'r ymddiriedolaeth neu'r sefydliad.

*weithiau rhaid i ni ofyn i ymgeisydd am ragor o wybodaeth, mae hyn hefyd yn berthnasol i gyllidebau neu gynlluniau codi arian nad ydynt yn glir. Os byddwn yn gofyn i chi am ragor o wybodaeth, darparwch y wybodaeth honno yn gyflym ac yn effeithlon, (neu byddwn yn dyfalu ynglŷn â'ch sefydliad a'i allu i gyflwyno os na all ymateb i geisiadau am wybodaeth). Hefyd, nid ydym yn mynd ar ôl rhywun yn ddi-ddiwedd am fod digon o gystadleuaeth gan ymgeiswyr da am gyllid*

### **Os byddwch yn llwyddiannus**

25. Meddyliwch am sut y byddwch yn cadw'r ymddiriedolaeth neu sefydliad elusennol mewn cysylltiad â'r hyn yr ydych yn ei wneud. Bydd y rhan fwyaf yn rhoi darlun clir i chi o sut y maen nhw am i chi adrodd am y gwaith ond mae'n werth ystyried hyn.

*Os cewch chi grant, neu hyd yn oed yn gynharach yn ystod y cyfnod asesu, siaradwch am yr hyn y gallwch ei ddisgwyl o ran rheoli grant. Bydd rhai ymddiriedolaethau a sefydliadau yn hapus i adael y cwbl i chi, bydd eraill eisiau cymryd mwy o ran, ac mae rhan ymddiriedolwr pan fydd grant wedi ei roi hefyd yn amrywiol*

*Mae'n werth cael y sgwrs fel bod pawb yn gwybod beth i'w ddisgwyl a hefyd beth sydd ar gael – mae digon o gynigion 'grantiau a mwy' ar gael, neu gymorth mewn nwyddau, cynigion mentora ac ati felly mae'n dda i chi wybod y gallwch wneud y mwyaf o bethau!*

26. Defnyddiwch y strwythur y maent yn gofyn amdano (adroddiadau blynyddol/adroddiadau bob chwe mis) i helpu i ffurfio eich gwerthusiad. Bydd ystyried y gwaith a rhannu eich sylwadau yn eich helpu chi ac yn ffurfio ymddiriedolaeth gyda'r cyllidwyr. Mae ymddiriedolaethau a sefydliadau wir yn darllen yr adroddiadau ar y prosiectau y maent yn eu cyllido, maent yn ceisio dysgu ganddyn nhw er mwyn dysgu beth sy'n gweithio a pha anawsterau y mae pobl yn eu hwynebu. Gallwch ychwanegu at eu gwybodaeth, nid yn unig am eich gwaith chi, ond am Gymru a'i hanghenion a'i chryfderau.

*Mae methiant nifer o sefydliadau i fonitro ac adrodd yn gyson yn wendid yn eu darpariaeth, gan eu bod o bosibl yn cymryd yn ganiataol bod y grant wedi ei sicrhau. Mae cyllidwyr yn cadw cofnodion ac yn sylwi ar ansawdd, neu ddiffyg ansawdd monitro ac*

*adrodd cyson. Mae hyn yn dod yn bwysig os yw'r sefydliad eisiau perthynas tymor hwy ac yn chwilio am gyllid pellach yn y dyfodol*